

Llais y Cleifion Bwletin Newyddion

Rhifyn 41
Gwanwyn
2021

Rydym ni yma i chi!

Wrth i ni ddechrau ail flwyddyn pandemig COVID-19 mae ein swyddfa, Tŷ Raglan, bellach yn dilyn canllawiau diogelwch COVID-19 a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n ddiogel i staff ac aelodau fynychu a pharhau â'r drefn busnes fel arfer.

Mae pob aelod o'r staff bellach yn gweithredu drwy ddull gweithio cyfunol, sef cymysgedd o weithio gartref ac yn y swyddfa, ac maent yn parhau i gefnogi cleifion a'r cyhoedd. Mae holl gyfarfodydd y Pwyllgor sydd wedi'u trefnu yn cael eu cynnal drwy Microsoft Teams, gyda rhai aelodau o'r staff a rhai o'r aelodau bellach yn dewis mynychu drwy'r swyddfa. Gallwch ddod o hyd i'n holl gyfarfodydd sydd wedi'u trefnu, y mae rhai ohonynt yn agored i'r cyhoedd, ar ein gwefan [yma](#)

Ffarwelio

Ddiwedd mis Mai 2021, bu'n dristwch mawr i ni ffarwelio â Mrs Angela Mutlow. Mae Angela wedi bod gyda Chyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan ers 16 mlynedd, a bu'n gweithio fel y Prif Swyddog am y pum mlynedd diwethaf. Er ei bod yn drist i Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan, nid yw Angela yn gadael yn llwyr gan ei bod yn ymgymryd â rôl newydd ym Mwrdd y Cyngorau Iechyd Cymuned. Mae pob un ohonom yn dymuno'r gorau i Angela yn ei rôl newydd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Miss Jemma McHale sydd wedi cael ei phenodi'n Brif Swyddog yn ddiweddar. Rydym hefyd yn dymuno'r gorau iddi yn ei rôl newydd.

Canllawiau defnyddiol gan Lywodraeth Cymru:

- Cyfyngiadau coronafeirws: yr hyn y gallwch ei wneud a'r hyn na allwch ei wneud: [yma](#)
- Canllawiau'r gweithlu: [yma](#)



CYNGOR CYFFREDINOL BLYNYDDOL (Cyfarfod Cyffredinol Blynvddol) Ebrill 2021

Cynhaliodd Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan ei Gyfarfod Cyffredinol Blynvddol ym mis Ebrill 2021 ac mae'n llongyfarch y Cynghorydd Alan Davies a Mrs Lesely Thomas ar gael eu hethol fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cynqor am ail flwyddyn.



Rhoddion 2021!

Yn dilyn ein hapêl lwyddiannus iawn am bethau ymolchi ac ati ar gyfer ein hysbytai lleol ym mis Ionawr 2021 – mae'r apêl bellach **wedi cau**.
Diolch i bawb a gyfrannodd!



Cynllun Blynvddol ar gyfer 2021-2022

Mae Cynllun Blynvddol Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan ar gyfer 2021-2022 bellach wedi lansio! Mae ein cynllun yn adlewyrchu'r diddordebau a'r materion thematig a grybwyllwyd wrthym gan bobl yn y gymuned neu gynrychiolwyr cymunedol, yn ogystal â'r gweithgareddau roeddem wedi gobeithio eu cyflawni yn ystod y flwyddyn flaenorol, ond y bu'n rhaid eu hoedi yn sgil y cyfyngiadau dealladwy a roddwyd ar waith er mwyn helpu i reoli'r pandemig. Gweler y cynllun llawn ar ein gwefan [yma](#)



Gwefan:
www.aneurinbevancic.org.cymru



Ffôn:
01633 838516



E-bost:
enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk



Diweddariadau'r CIC...

Gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd

Prosiect "Cyfeillio" FaceTime

Yn dilyn llwyddiant ysgubol ein Prosiect "Cyfeillio" yn gynharach eleni, byddwn yn trafod y mater hwn unwaith eto ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r prosiect hwn yn ein galluogi i siarad â chleifion mewnol mewn sawl ysbyty aciwt a chymunedol ledled Gwent. Gweler ein fideo [yma](#) ar y ffordd y cyflawnwyd y prosiect hwn a'r effaith a gafodd ar fywydau cleifion yn gynharach eleni.

Prosiect Gofal Cymhleth/Huntington

Yn dilyn llwyddiant ysgubol ein Prosiect "Cyfeillio" FaceTime, mae'r CIC yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i siarad â chleifion sy'n cael gofal gan y timau Gofal Cymhleth/Huntington. Bydd aelodau o'r CIC yn ymgysylltu â chleifion **yn eu cartrefi eu hunain** dros FaceTime. Bydd crynodeb ar gael yn fuan.



Prosiect cleifion mewnol Ysbyty Athrofaol y Grange

Cynhaliwyd y prosiect ym mis Mawrth 2021 a galluogodd ein haelodau i siarad â chleifion yn rhithwir ar wardiau yn Ysbyty Athrofaol y Grange. Bydd adroddiad llawn ar y prosiect ar gael mewn cylchlythyr yn y dyfodol!



Gwefan:
www.aneurinbevancic.org.cymru

Ffôn:
01633 838516

E-bost:
[enquiries.aneurinbevan
chc@waleschc.org.uk](mailto:enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk)



Arolygon i rannu eich profiadau a'ch safbwyntiau...

Apwyntiadau Rhithwir

Hoffem ddiolch i bawb a ysgrifennodd atom i rannu eu profiad o ddefnyddio apwyntiadau rhithwir. Hyd yma, mae 699 o bobl wedi rhannu eu profiad â ni, ond nid yw'n rhy hwyr i chi rannu eich profiad chi â ni hefyd. Cliciwch [yma](#) i gwblhau ein harolwg!



Gofal y GIG yn ystod y Coronafeirws

Rhannodd 206 o bobl eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau'r GIG yn ystod pandemig COVID-19 ym misoedd Ionawr, Chwefror a Mawrth 2021. Mae ein briffiadau ar adborth y cyhoedd ar gael [yma](#) sy'n rhoi cipolwg o'r pethau mae pobl wedi sôn wrthym amdanynt. Parhewch i rannu eich profiadau drwy gwblhau ein harolwg [yma](#)

Arolwg o Fynediad i Wasanaethau Meddygon Teulu

Gwnaeth yr arolwg hwn ein galluogi i gael syniad gwell o brofiad y cyhoedd wrth ddefnyddio eu gwasanaethau meddygon teulu. Cafwyd 1,328 o ymatebion hyd yma! Rhannwyd yr arolwg hwn yn eang, a'r themâu cyffredin sy'n dod i'r amlwg yw: llinellau ffôn prysur, dim digon o apwyntiadau ar gael a diffyg cyfathrebu yn gyffredinol. Ar nodyn cadarnhaol, roedd pobl yn gwerthfawrogi'r pwysau sydd ar feddygon teulu a staff yn ystod y pandemig, ac yn teimlo eu bod yn gwneud gwaith gwych dan yr amgylchiadau presennol. Bydd adroddiad llawn ar gael mewn cylchlythyr yn y dyfodol, ond gallwch rannu eich profiad â ni o hyd drwy gwblhau ein harolwg [yma](#)

Bydd eich adborth yn helpu i wneud gwahaniaeth!



Gwefan:

www.aneurinbevancic.org.cymru



Ffôn:

01633 838516



E-bost:

enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk



Arolygon i rannu eich profiadau a'ch safbwyntiau...

Arolwg Nam ar y Clyw

Os ydych yn drwm eich clyw neu'n ddefnyddiwr Iaith Arwyddion Prydain i'r Byddar, rhannwch eich profiadau **CHI** o ddefnyddio gwasanaethau'r GIG, boed yn dda neu'n wael.

Mae'r arolwg hwn yn weithredol o hyd, felly ewch ati i'w gwblhau [yma](#). Hoffem glywed gennych.

Cynhaliodd Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan ddigwyddiad ymgysylltu â Chymdeithas Pobl Fyddar Prydain ar 26 a 27 Mai 2021 drwy



Ward Oak, Ysbyty'r Sir

Drwy gydol mis Tachwedd/Rhagfyr 2020, clywsom gan gleifion a oedd yn aros ar Ward Oak yn Ysbyty'r Sir, Pont-y-pŵl drwy ein harolwg, gan oedd ymweliadau'n cael eu caniatáu bryd hynny.

Mae'r ward yn cefnogi pobl sydd ag anghenion adsefydlu cyn iddynt ddychwelyd i'w man preswyl arferol. Gweler yr adroddiad llawn yn ein cylchlythyr nesaf.



Gwefan:

www.aneurinbevancic.ig.cymru



Ffôn:

01633 838516



E-bost:

enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk

Diweddariadau'r CIC...

Gwasanaeth Eiriolaeth CIC

Rhwng 1 Chwefror 2021 a 30 Ebrill 2021, cafwyd 93 o gwynion ac ymholiadau newydd. Mae gennym 111 o achosion ar agor ar hyn o bryd, sy'n gynnydd bach mewn pryderon agored ers y cylchlythyr diwethaf. Prif thema'r ymholiadau yw cael gafael ar feddygon teulu dros y ffôn. Prif themâu'r pryderon yw:

- ❖ Gofal Sylfaenol Meddygon Teulu
- ❖ Derbyniadau Brys/Damweiniau ac Achosion Brys
- ❖ Gwasanaeth Ambiwlans Cymru



[Ewch i'n gwefan yma](#)

Rydym ar y Cyfryngau Cymdeithasol!

Facebook!



Ewch i'n tudalen
Facebook [yma](#)
neu chwiliwch am "CIC



Twitter!



Ewch i'n tudalen Twitter
[yma](#)
neu chwiliwch am
@bevanhc

Fformatau hygyrch

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni. Mae ein cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu o'n gwefan.



Gwefan:

www.aneurinbevancic.gig.cymru



Ffôn:

01633 838516



E-bost:

enquiries.aneurinbevanhc@waleschc.org.uk